

SESIWN 6: GWEITHREDU'N ERBYN NEWID HINSAWDD

Ystod oedran: 11 – 14 oed

<p>Amlinelliad</p> <p>Bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn trafod gwahanol gamau y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Bydd y dysgwyr wedyn yn nodi camau posibl y gallent gymryd fel ysgol a threfnu'r rhain yn ôl pa mor hawdd ydynt a faint o effaith fyddent yn cael. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grŵp i gynllunio eu camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.</p>		
<p>Amcanion dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi amrywiaeth o gamau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Deall y bydd camau yn amrywio yn dibynnu ar ba mor hawdd ydynt i'w cymryd a'r effaith a gânt. 	<p>Canlyniadau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai camau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn trefnu gwahanol gamau yn ôl pa mor hawdd ydynt ac yn ôl eu heffaith. 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Pa gamau ellir eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd? Pa gamau allwn ni gymryd? Pa mor hawdd fydd cymryd y camau hyn? Pa effaith fydd y camau hyn yn gael? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>: sleidiau 25 – 34. Tafleddi adnodd: <i>Gweithredu yn erbyn newid hinsawdd – Astudiaethau achos 1 a 2</i>. Tafleddi gweithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <i>Rhannu'r camau i gategorïau</i> <i>Rhoi'r camau yn eu trefn</i> <i>Dadansoddi'r camau</i> <i>Grid cynllunio i weithredu</i> 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr</p> <p>CA3 Dinasyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid addysgu'r disgyblion ynglŷn â'r swyddogaethau sydd i sefydliadau cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol mewn cymdeithas, a'r ffyrdd y gall dinasyddion gydweithio i wella eu cymunedau, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn seiliedig yn yr ysgol. 	<p>Cymru</p> <p>CA3 Daearyddiaeth</p> <p>Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Astudio dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd ehangach ynglŷn â byw yn gynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang. Gofyn ac ateb y cwestiynau: <ul style="list-style-type: none"> Sut gall newidiadau fod yn gynaliadwy a pham fod hynny'n bwysig i'r lle/amgylchedd hwn? Sut gall y camau yr wyf i a phobl eraill yn cymryd wneud gwahaniaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang? <p>ADCDF: Newid Hinsawdd, Dewisiadau a Phenderfyniadau</p>	<p>Yr Alban</p> <p>Astudiaethau cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallaf ddadansoddi'n feiriadol bwysigrwydd cymharol y cyfraniad a wna unigolion neu grwpiau i sicrhau newid mewn digwyddiad gwleidyddol arwyddocaol. SOC 4-17a <p>Dysgu er Cynaliadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Fel rhan o'r hawl hon, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd fel rhan o'u profiadau cwricwlaidd i ymwneud â phrosesau democrataidd, a chysylltu â'u cymunedau a chyfrannu atynt, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, fel dinasyddion byd-eang gweithgar.



Gweithgaredd 6.1: Beth mae gweithredu yn erbyn newid hinsawdd yn golygu? (30 munud)

- Dangoswch sleid 26 a gofynnwch i'r dysgwyr beth mae *gweithredu* neu *gymryd camau* yn golygu. Yn y cyd-destun hwn, esboniwch y gallwn feddwl am weithredu fel gwneud rhywbeth i atal sefyllfa (sydd fel arfer yn wael) rhag datblygu neu barhau.
- Esboniwch y bydd y dysgwyr, yn y sesiwn hon, yn meddwl am wahanol gamau posibl y gallent fod yn cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, ac yn cynllunio'r camau hynny.
- Dangoswch sleid 27 a labelwch bedwar cornel yr ystafell ddosbarth neu'r gofod dysgu yn yr un modd: *Fi fy hun*, *Pobl eraill*, *Fy ffrindiau* a *Pobl mewn grym*. Gofynnwch i'r dysgwyr symud i un o gorneli'r ystafell, yn dibynnu ar eu barn ar bwy maen nhw'n meddwl sydd angen gweithredu fwyaf yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Os nad ydynt yn siŵr ar unrhyw adeg, gallant sefyll hanner ffordd rhwng dwy gornel (neu yng nghanol y pedwar).
- Gofynnwch i'r dysgwyr yn y gwahanol fannau i gyfiawnhau eu dewisiadau.
- Nesaf gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n meddwl y gallwn ac y dylem weithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. *Pa fathau o weithredu sydd? Pwy ddylai gymryd y camau hyn?*
- Dangoswch sleid 28 ac esboniwch bod pedwar categori cyffredinol o weithredu:
 - **Codi ymwybyddiaeth:** rhannu'r hyn a ddysgwch am effaith y newid yn yr hinsawdd ar bobl gydag eraill.
 - **Ymgyrchu:** rhoi pwysau ar bobl sy'n gwneud penderfyniadau a busnesau i wneud yr hyn a allant i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynorthwyo cymunedau i addasu at y newid yn yr hinsawdd.
 - **Troi'n wyrdd:** unigolion, ysgolion a chymunedau yn cymryd camau i leihau eu hól-troed carbon eu hunain.
 - **Codi arian:** codi arian i elusennau sy'n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan allweddol o waith Oxfam. Mae Oxfam yn gweithio gyda chymunedau, ac yn creu cyswllt rhwng pobl â'r cymorth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i addasu at y newid yn yr hinsawdd.
- Dangoswch sleidiau 29 i 32 sydd ag enghreifftiau o wahanol ffyrdd y mae rhai pobl ifanc wedi gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Gyda phob enghraifft, trafodwch ba categori y mae'r weithred yn perthyn iddo. Efallai y bydd rhai o'r enghreifftiau yn perthyn i fwy nag un categori. Mae'r enghreifftiau hyn i'w gweld hefyd yn *Gweithredu yn erbyn newid hinsawdd*.
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch gopi o *Rhannu'r camau i categorïau* i bob grŵp. Ar gyfer pob cam posibl yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, dylai'r dysgwyr drafod i ba categori mae'r camau yn perthyn. Efallai yr hoffai'r dysgwyr liwio'r camau â gwahanol liwiau.

Gweithgaredd 6.2: Rhoi'r camau yn eu trefn (25 munud)

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Bydd angen bwrdd ar bob grŵp, gyda lle i symud o amgylch naw o gardiau gweithredu. Rhowch gopi o *Rhoi'r camau yn eu trefn* i bob grŵp.

- Yn eu grwpiau, dylai'r dysgwyr nodi hyd at naw o gamau posibl y gallent gymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Dylent ysgrifennu pob cam ar ddarn gwahanol o bapur gludiog (neu ddarn o bapur).
- Dylai'r dysgwyr wedyn osod y camau posibl hyn ar ffurf diemwnt, yn nhrefn pa mor 'dda' maen nhw'n meddwl yw'r camau. Dylai'r cam 'gorau' gael ei roi ar y pen uchaf, wedyn rhes o'r ddau nesaf, wedyn rhes o dri, ac yn y blaen. Mae enghraifft i'w gweld ar sleid 33.
- Pwysleisiwch nad oes atebion cywir nac anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob cam, a dylent eu rhoi yn y drefn orau yn eu barn nhw.
- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio grid *Dadansoddi'r camau* i helpu i roi trefn ar y camau. Argraffwch gopi A3 o'r daflen i bob grŵp. Dylai'r dysgwyr osod pob cam ar y graff yn ôl pa mor hawdd yw'r cam i'w gymryd, a'r effaith y bydd yn cael.
- Rhowch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr rannu eu syniadau fel grŵp cyfan. Archwiliwch y dewisiadau a wnaeth y dysgwyr a'u rhesymau. Yn olaf, trafodwch y meini prawf y gwnaethant eu defnyddio wrth wneud eu penderfyniadau (e.e. dichonoldeb, priodoldeb, effeithiolrwydd neu gost).

Gwahaniaethu

- *Ychydig yn haws: Gallai'r dysgwyr ddefnyddio rhai o'r syniadau i weithredu sydd i'w gweld yn Rhannu'r camau i gategorïau.*

Gweithgaredd 6.3: Dewis un o'r camau (10 – 20 munud)

- Gall y dysgwyr naill ai ddewis un cam fel grŵp, neu fel dosbarth cyfan. Gall yr athro/athrawes a'r disgyblion benderfynu ar hyn. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio techneg ddemocrataidd oddi mewn i bob grŵp i benderfynu ar hyn. Gallai hyn olygu pleidleisio ar draws y dosbarth neu oddi mewn i bob grŵp er mwyn gwneud penderfyniad.
- Os oes gennych fwy o amser, gallech ymestyn y gweithgaredd hwn: rhowch un funud i bob grŵp gyflwyno eu syniad gorau i'r dosbarth, ac wedyn ar y diwedd gall y dosbarth cyfan bleidleisio dros eu hoff opsiwn.


Gweithgaredd 6.4: Cynllunio i weithredu yn erbyn newid hinsawdd (25 munud)

- Wedi i'r syniad mwyaf poblogaidd gael ei ganfod, rhowch gopi o'r *Grid cynllunio i weithredu* i bob grŵp ei lenwi. Neu fe allech fynd ati i lenwi'r grid fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan. Mae'r templed hwn i'w weld hefyd ar sleid 34.
- Anogwch y dysgwyr i feddwl am y rhain, a'u trafod:
 - *Beth ydych chi eisiau gwneud?*
 - *Pam eich bod chi eisiau gwneud hyn?*
 - *Pa wahanol dasgau sydd eu hangen i gwblhau hyn? Er enghraifft, canfod gwybodaeth, gwneud poster, ei argraffu a'i ddsbarthu.*
 - *Pa adnoddau fydd eu hangen?*
 - *Pwy fydd yn gyfrifol am beth?*
 - *Pa gymorth fydd ei angen arnoch?*

- Erbyn pryd fydd yn rhaid ei wneud?
- Pa dystiolaeth o lwyddiant fyddwch chi'n defnyddio?
- Dylai'r dysgwyr ysgrifennu eu cam gweithredu a'u rhesymau am ddewis y cam hwn ar ben uchaf y daflen. Dylid ysgrifennu'r gweithgareddau (neu'r tasgau) sydd eu hangen i gwblhau'r cam gweithredu hwn yng ngholofn chwith y tabl. Wedyn dylai gweddill y colofnau gael eu llenwi ar gyfer pob un o'r gweithgareddau.
- Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn gwybod beth fydd eu camau nesaf a phwy sy'n gwneud beth.

Syniadau pellach

- Mae syniadau ychwanegol a chymorth i hwyluso ac asesu dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn yr ystafell ddosbarth ar gael yn *Get Global! A skills-based approach to active global citizenship*. Mae'r canllaw hwn i athrawon ar gael i'w lawrlwytho am ddim fan hyn:
<http://www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global>
- Gallai'r dysgwyr greu coeden newid hinsawdd i werthuso'r hyn maen nhw wedi dysgu am achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ynghyd ag atebion posibl. Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach o dri neu bedwar. Dylai pob grŵp greu amlinell coeden ar ddarn mawr o bapur plaen. Dylent ysgrifennu 'Newid hinsawdd' ym moncyff y goeden. Wedyn dylent labelu'r gwreiddiau ag achosion newid hinsawdd, y canghennau ag effeithiau newid hinsawdd a'r ffrwythau â champau posibl y gallent gymryd.



- Byddai tîm Addysg Oxfam wrth ei fodd yn cael clywed am unrhyw weithgareddau newid hinsawdd y byddwch yn eu cynnal. Anfonwch unrhyw luniau, adroddiadau neu storïau i oxfamcymru@oxfam.org.uk. Os ydych yn anfon ffotograffau, gwnewch yn siŵr bod gennych ganiatâd i'w defnyddio.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Bywydau Ifanc

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.

Gweithredu yn erbyn newid hinsawdd

Astudiaethau achos 1

Mynd â'r neges i Downing Street

Aeth disgyblion Blwyddyn 10 o Ysgol Abraham Moss, Manceinion, i Downing Street i gyflwyno eu neges ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd i'r Prif Weinidog.

Cyflwynodd y myfyrwyr lyfr sgrap yn llawn o'u negeseuon a'u gwaith celf ar newid hinsawdd, a thystiolaeth o 5000 o gamau a gymerwyd gan bobl ifanc.

Bu Ifra (yr ail o'r dde) yn helpu i gyflwyno'r llyfr sgrap, gan anfon y neges hon i'r Prif Weinidog:



Gwybodaeth am y llun: Disgyblion Ysgol Abraham Moss y tu allan i Rif 10 Downing Street.

Llun gan: Crispin Hughes/Oxfam

"Mae gan bawb ôl-troed carbon, hyd yn oed y chi! Mae'n rhaid i bawb ohonom geisio torri'n ôl arno!"

Cynhaliodd y myfyrwyr nifer o gyflwyniadau yn yr ysgol, a gwneud fideo byr i'w AS lleol. Fe wnaethon nhw hefyd gystadlu mewn cystadleuaeth poster newid hinsawdd, ac ennill.

Roedd y geiriau hyn yn rhan o'r poster: "Ni yw'r dyfodol, yr yfory. Ond mae ein dyfodol yn cael ei dorri'n fyr gan weithredoedd ein henuriaid heddiw".

Pencampwyr Hinsawdd Chelford

Teimlai disgyblion Ysgol Gynradd Chelford, Swydd Gaer, yn angerddol dros wneud rhywbeth er lles pobl sy'n cael eu heffeithio gan drychinebau a'r newid yn yr hinsawdd. Felly dyma nhw'n ysgrifennu eu cyflwyniad Diolchgarwch eu hunain, gan herio'r staff a'r disgyblion i roi cynnig ar gwis newid hinsawdd. Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn casglu arian ar gyfer Gŵyl Ddiolchgarwch ac eleni penderfynodd y disgyblion y byddai'r arian yn mynd i Oxfam.



Penderfynodd y plant hefyd eu bod eisiau rhoi llyfrau ail law i'w siop Oxfam leol i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan drychinebau a newid hinsawdd.

Gwnaeth hyn wedyn arwain at syniad arall – beth am ysgrifennu negeseuon ym mhob llyfr, yn esbonio wrth bwy bynnag sy'n ei brynu sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl? Roedd y disgyblion wrth eu bodd i gael ysgrifennu eu llythyron yn sôn am yr hyn roeddent wedi dysgu am newid hinsawdd, a beth roedden nhw eisiau i oedolion wneud am

y peth.

Gweithredu yn erbyn newid hinsawdd

Ysbrydoli newid

Llwyddodd disgyblion Blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd Fairfield, Bryste, i gasglu mwy na 1000 o lofnodion gan ddisgyblion, athrawon a rhieni ar ddeiseb a oedd yn 50 troedfedd o hyd. Cafodd y ddeiseb ei harddangos yn yr ysgol, a'i hanfon wedyn i Downing Street.

Cymerodd y disgyblion ran mewn gwersi am newid hinsawdd, gan ysgrifennu negeseuon i'r Prif Weinidog ar amlinell o'u dwylo. Aethant ati hefyd i drefnu gŵyl gerddoriaeth fach Oxjam. Roedd pawb yn gwisgo glas, a'u hwynebau wedi'u paentio, a chodwyd £360 i Oxfam.

Roedd Eco-Dîm yr ysgol wrth eu boddau i gael sylw yn y papur lleol ac ar yr orsaf radio leol. Mae eu cynlluniau a'u syniadau i'r dyfodol yn cynnwys 'Prynhawn i'r Ddaear' heb ddefnyddio unrhyw dechnoleg, gan weithio gyda Phrifysgol Bryste i wneud archwiliad carbon o'r ysgol, a'r posibilrwydd o gadw mochyn i leihau eu gwastraff bwyd.



Band lleol Twenty Twenty yn niwrnod 'Glas' yr ysgol.

Lleihau eu hól troed carbon

Mae eco-brosiect Ysgol Lewis, Pengam, wedi magu stêm ers cychwyn yn 2007. Bu'r disgyblion doeth yn prysur leihau eu hól-troed carbon drwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys plannu coed, casglu sbwriel yn yr ardal leol a gweithio gyda'r gymuned leol i ddatblygu safle rhandiroedd. Maen nhw hefyd wedi helpu i drefnu a chynnal digwyddiad Eco 10:10 i annog ysgolion eraill i wneud addewid i leihau eu hallyriadau carbon gan 10% er mwyn helpu i leihau eu heffaith ar y newid yn yr hinsawdd.



"Mae'r bechgyn a'r merched yn y grŵp Eco-Ysgol wedi dangos gwir ymrwymiad i'r ysgol a'r gymuned leol drwy dreulio eu hamser yn helpu i leihau effeithiau amgylcheddol. Mae'n chwa o awyr iach gweld y math hwn o ddysgu rhagweithiol ar waith, ac nid fel pwnc cwricwlwm sy'n cael ei asesu," meddai Lorraine Barnes, Cydlynnydd Eco-Ysgolion yn Ysgol Lewis, Pengam, Sir Gaerffili.

“Rwy wir yn mwynhau helpu gyda gwaith yr Eco-Ysgolion. Mae’n gwneud i mi deimlo balchder yn fy ysgol a meddwl am y byd a phobl o fy amgylch,” meddai un disgybl.

Rhannu’r camau i gategoriâu

Darllenwch drwy’r rhestr o gamau posib. Ar gyfer pob cam gweithredu, meddyliwch i ba categori gweithredu y mae’n perthyn orau. Efallai yr hoffech liwio’r camau â phedwar lliw gwahanol.

- **Codi ymwybyddiaeth**: rhannu’r hyn a ddysgwch am effaith y newid yn yr hinsawdd ar bobl gydag eraill.
- **Ymgyrchu**: gofyn i bobl sy’n gwneud penderfyniadau i wneud yr hyn a allant i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynorthwyo cymunedau i addasu at y newid yn yr hinsawdd.
- **Troi’n wyrdd**: unigolion, ysgolion a chymunedau yn cymryd camau i leihau eu hól-troed carbon eu hunain.
- **Codi arian**: codi arian i elusennau sy’n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

- a) Cynnal gwasanaeth newid hinsawdd i roi gwybod i eraill am effaith y newid yn yr hinsawdd ar bobl.
- b) Trefnu noson gwis newid hinsawdd yn y gymuned leol.
- c) Gwahodd eich AS/AC neu arweinwyr busnesau lleol i’r ysgol a threfnu digwyddiad Pawb a’i Farn neu ddadl ar newid hinsawdd.
- ch) Cynnal archwiliad gwastraff yn eich ysgol a defnyddio’r canlyniadau i helpu i gynllunio ffyrdd i leihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff yr ysgol.
- d) Trefnu ‘X Factor Hinsawdd’ lle mae geiriau’r caneuon yn ymwneud â’r newid yn yr hinsawdd.
- dd) Dylunio posteri a thafenni i rannu’r hyn rydych wedi dysgu am y newid yn yr hinsawdd, a’u harddangos yn eich ysgol neu yn eich cymuned leol.
- e) Gofyn i’r cyngor lleol i wella trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau beicio fel bod pobl yn gwneud llai o ddefnydd o geir.
- f) Sefydlu ‘Eco Glwb’ a chynllunio camau gweithredu i leihau effaith yr ysgol ar yr amgylchedd.
- ff) Ysgrifennu erthygl i’r papur newydd lleol neu siarad ar yr orsaf radio leol i godi ymwybyddiaeth o’r newid yn yr hinsawdd.
- g) Trefnu cystadleuaeth pobi cacennau a rhoi’r arian sy’n cael ei godi i elusen sy’n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.
- ng) Llwyfannu drama ynglŷn â’r newid yn yr hinsawdd yn eich cymuned leol.
- h) Ysgrifennu at eich AS/AC i ofyn i’r llywodraeth wneud mwy i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd.
- i) Gosod posteri o amgylch yr ysgol i annog pobl i ddiffodd y golau a’r byrddau gwyn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- j) Sefydlu gardd yn yr ysgol, a thyfu llysiau i’w defnyddio yng nghinio’r ysgol.
- l) Cyfrifo eich ôl-troed carbon unigol a chymryd camau i geisio ei leihau. Mae cyfrifiannell ar-lein i’w weld fan hyn <http://ecologicalfootprint.com/>

Nesaf ceisiwch feddwl am eich enghreifftiau eich hun o gamau i'w rhoi ym mhob categori.

Rhoi'r camau yn eu trefn

Pa gamau'r ydych yn credu y dylech gymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd?

Gweithiwch mewn grwpiau o dri i feddwl am naw o gamau gweithredu posib.


Ysgrifennwch bob cam ar ddarn gwahanol o bapur gludiog. Nesaf rhowch eich syniadau yn eu trefn ar ffurf diemwnt, o ran pa mor dda'r ydych yn credu yw'r camau. Rhowch y cam 'gorau' ar y pen uchaf, wedyn rhes o'r ddau nesaf, ac wedyn rhes o dri ac yn y blaen.

Cofiwch nad oes atebion cywir nac anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob cam, a dylech eu rhoi yn y drefn orau yn eich barn chi.


Rhannwch eich syniadau fel grŵp. Trafodwch y dewisiadau a wnaethoch a'r rhesymau drostynt.

Codi arian a'i roi i elusen sy'n gweithio yn erbyn newid hinsawdd.

Llunio poster neu daflen ynglŷn â newid hinsawdd a'i arddangos yn yr ysgol neu'r gymuned leol.



Mwyaf effeithiol



Lleiaf effeithiol

Ysgrifennu at eich AS/AC yn gofyn i'r llywodraeth wneud mwy i fynd i'r afael â newid hinsawdd.


Canbennion addysgol yn unig.



OXFAM

Dadansoddi'r camau

Platiwch y camau gweithredu ar y graff isod gan ddefnyddio **X**. Esboniwch eich dewis gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gweithgaredd a'ch syniadau eich hun.



Grid cynllunio i weithredu

Beth rydyn ni'n mynd i wneud: _____

Pam ein bod ni am wneud hyn: _____

Gweithgaredd	Adnoddau sydd eu hangen	Pwy sy'n gyfrifol?	Cymorth sydd ei angen	Dyddiad cwblhau	Tystiolaeth o lwyddiant